

LLWYBRAU RHEOLI EITHRIADAU ARFARNU CYMRU

Gweithdrefnau Gweithredol Arfarnu Meddygon Teulu

Diweddarwyd Medi 2023

Cynnwys:

Cyflwyniad

Rhan 1: Cefndir a Throsolwg

Tudalen	4	1.1 Rheoli Arfarnu Meddygon Teulu yng Nghymru
	4	1.2 Arfarnu a Rhestr Cyflawnwyr Meddygol (MPL)
	4	1.3 Gweithio Dramor

Rhan 2: Y berthynas rhwng yr Uned Cymorth Ailddilysu (RSU) a'r Cyrff Dynodedig (DB)

Tudalen	5	2.1 Cyfrifoldebau
---------	---	-----------------------------------

Rhan 3: Chwarteri a Ddyrannwyd

Tudalen	6	3.1 Rheoli Chwarteri a Ddyrannwyd
	7	3.2 Y Broses Ddyrannu
	9	3.3 Gohebiaeth AQ i Feddygon Teulu

Rhan 4: Amgylchiadau Esgusodol

Tudalen	10	4.1 Aildrefnu Arfarniadau
	10	4.2 Aildrefnu Arfarniadau – Cyfrifoldebau Meddygon Teulu
	11	4.3 Aildrefnu Arfarniadau – Cyfrifoldebau'r Arfarnwr

Rhan 5: Diffyg ymgysylltu ag Arfarnu ac Ailddilysu

Tudalen	11	5.1 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi ar ôl cynnwys ar MPL
	11	5.2 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi cyn y cyfarfod gwerthuso - nid yw'r meddyg teulu yn cytuno ar ddyddiad gwerthuso o fewn 1 mis i gais yr Arfarnwr
	12	5.3 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi cyn y cyfarfod gwerthuso - Ni ddarperir digon o wybodaeth arfarnu am o leiaf bythefnos cyn y drafodaeth werthuso
	12	5.4 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi yn ystod y cyfarfod arfarnu
	13	5.5 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi ar ôl y cyfarfod arfarnu

Rhan 6: Pryderon ac Eithriadau Arfarnu

Tudalen	14	6.1 Pryderon a nodwyd drwy weithdrefnau DB y tu allan i'r broses arfarnu
	14	6.2 Pryderon a nodwyd drwy'r broses arfarnu
	13	6.3 Pryderon Arwyddocaol
	16	6.4 Arfarniad Ymarfer Cyfan

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ategu dogfen Llwybrau Rheoli Eithriadau Arfarnu Cymru. Mae dogfen Llwybrau Rheoli Eithriadau Arfarnu Cymru yn rhoi gwybodaeth am egwyddorion allweddol arfarnu meddygol yng Nghymru, ei gysylltiadau ag ailddilysu a'i reoli. Mae'n canolbwyntio ar sut bydd sefyllfaoedd, sy'n gwyrdd oddi wrth y llwybr arfarnu arferol, yn cael eu rheoli gan y sefydliadau perthnasol, h.y. Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Corff Dynodedig (DB). Mae'r ddogfen yn rhoi manylion llwybrau sy'n berthnasol i amrywiaeth o sefyllfaoedd eithriadol gwahanol. Drwy gytuno ar y llwybrau hyn ar lefel Cymru gyfan y nod yw sicrhau eu bod yn cael eu rheoli mewn modd cyson, teg a chefnogol.

Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol yn benodol berthnasol i Arfarnu Meddygon Teulu yng Nghymru fel y'u rheolir gan yr Uned Cymorth Ailddilysu (RSU) yn AaGIC, ar ran y Cyrff Dynodedig. Maent yn rhoi esboniad manylach o'r prosesau sydd i'w dilyn yn yr achosion a ddisgrifir yn y Llwybrau Rheoli Eithriadau, yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir ynddynt. O'r herwydd, maent o ddiddordeb sylfaenol i'r RSU, y Cydlynwyr Arfarnu (AC) Meddygon Teulu, Arfarnwyr Meddygon Teulu a Thimau Ailddilysu DB.

Dylid ystyried y prosesau a ddisgrifir fel protocol yn hytrach nag arweiniad a dylid trafod amrywiad o broses yn y lle cyntaf gyda Phennaeth yr Uned Cymorth Ailddilysu.

Rhan 1: Cefndir a Throsolwg

1.1 Rheoli Arfarnu Meddygon Teulu yng Nghymru

Mae'r Uned Cymorth Ailddilysu yn AaGIC yn rheoli'r gwaith o arfarnu meddygon teulu yng Nghymru. Ein nod yw rheoli a darparu arfarniad blynyddol â sicrwydd ansawdd yn effeithiol i bob meddyg teulu cymwys ar Restr Cyflawnwyr Meddygol Cymru (MPL) sy'n gysylltiedig â chorff dynodedig yng Nghymru, drwy'r [System Ailddilysu Arfarnu Meddygol \(MARS\)](#).

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at reoli arfarniadau, ond lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar ailddilysu.

Mae gan feddygon teulu unigol rwymedigaeth gytundebol i gynnal arfarniad blynyddol a rhaid iddynt ailddilysu i gynnal eu trwydded GMC i ymarfer. Cyfrifoldeb Cyfarwyddwyr Meddygol DB yw monitro cydymffurfriad meddygon teulu â'u contractau.

1.2 Arfarnu, Rhestr Cyflawnwyr Meddygol (MPL) a Chysylltiad Rhagnodedig

Rhaid cynnwys pob meddyg teulu sy'n ymarfer ar y MPL er mwyn gweithio yng Nghymru. Rhaid iddynt ymgymryd ag arfarniad blynyddol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ar y MPL (ond nid o reidrwydd yng Nghymru os ydynt yn gwneud y rhan fwyaf o'u gwaith mewn gwlad arall yn y DU). Byddant yn gysylltiedig â DB penodol a allai hefyd fod yn gysylltiad rhagnodedig iddynt at ddibenion ailddilysu. Bydd y Swyddog Cyfrifol (RO) yn y DB yn gyfrifol am wneud ei argymhelliad ailddilysu pan fo angen.

Gall meddygon teulu ymuno â'r MPL ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn feddygon teulu sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Arbenigol Meddygon Teulu yn ddiweddar a'r rhai sydd wedi symud i Gymru yn ddiweddar. Bydd gofyn i 'newydd-ddyfodiaid' gofrestru ar MARS o fewn 3 mis ar ôl eu cynnwys yn ddiamod ar y MPL. Gallai methu â gwneud hynny arwain at ddiffyg ymgysylltu a chatau dilynol gan eu DB drwy anfon y llythyr templed GP1. Bydd angen i'r DB ddarparu llinell amser i'r meddyg teulu gofrestru ar MARS meddygon teulu. Os bydd y meddyg teulu'n methu â chofrestru o fewn yr amserlen a bennir gan y DB, bydd angen i'r DB ystyried camau pellach.

Yn gyffredinol, bydd yn ofynnol i feddygon teulu ymgymryd ag arfarniad 9 – 15 mis ar ôl ymuno â'r MPL (gall amserleni amrywio mewn rhai achosion).

Byddai meddygon teulu sydd wedi'u cofrestru ar fwy nag un MPL yn y DU fel arfer yn cael eu harfarnu'n flynyddol yn y wlad lle maent yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'u gwaith. Os oes angen rhagor o eglurder ar y meddyg teulu ynghylch hyn, rydyn ni'n argymhell eu bod yn siarad â'u Swyddog Cyfrifol neu'r GMC.

Rhaid i holl feddygon teulu'r GIG sydd â chysylltiad rhagnodedig yng Nghymru ddefnyddio MARS. Rhaid cofnodi'r holl wybodaeth arfarnu ar MARS a dylai pob cofnod gynnwys y manylion a'r myfyrdod gofynnol. Pan fydd meddyg teulu wedi defnyddio adnodd ar-lein arall i gofnodi ei ddysgu, efallai y bydd hynny yn caniatáu iddynt lawrlwytho'r wybodaeth e.e. drwy PDF. Os gwneir hyn a bod y meddyg teulu yn ei atodi i dempled ar MARS, rhaid i'r meddyg teulu sicrhau bod y templed yn cynnwys swm gofynnol o wybodaeth (gan gynnwys cyfeiriad at ganlyniadau a myfyrio). Er mwyn osgoi dyblygu, byddem yn cynghori'r meddyg teulu i ychwanegu eu dysgu'n uniongyrchol ar MARS. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â heiw.appraisalofficer@wales.nhs.uk

1.3 Gweithio Dramor

Rydym yn argymhell bod unrhyw feddyg teulu sy'n ystyried gweithio dramor, gan gadw eu trwydded yn y DU i ymarfer, yn cysylltu â'u Swyddog Cyfrifol i drafod y wybodaeth ategol y mae'n ofynnol iddynt ei chasglu. Mae'r GMC wedi rhoi rhagor o fanylion am [feddygon sy'n gweithio dramor](#).

Mae'n ofynnol i'r meddyg teulu gynnwys unrhyw waith tramor yn adran gweithgareddau ei broffil MARS meddyg teulu.

Wrth baratoi ar gyfer cyfarfod arfarnu gyda meddyg teulu sydd wedi bod yn gweithio dramor, os yw Arfarnwr yn credu nad oes digon o wybodaeth yn ymwneud ag ymarfer yn y DU, gellir gohirio'r arfarniad yn unol â 5.3 isod.

Rhan 2: Y berthynas rhwng yr Uned Cymorth Ailddilysu a'r Corff Dynodedig (DB)

Er mwyn i'r Gweithdrefnau Gweithredol hyn gael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson i bob meddyg teulu, rhaid i'r RSU a'r DB sicrhau cyfathrebu rheolaidd a bodloni eu cyfrifoldebau fel y rhestrir isod.

2.1 Cyfrifoldebau

Mae'r RSU yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod DBs yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ddatblygiadau sylweddol o ran MARS drwy gyfarfod Grŵp Ailddilysu ac Arfarnu Cymru (WRAG) (yn unol â'r cylch gorchwyl)
- Darparu mynediad at ddata arfarnu byw ar gyfer eu rhanbarth ar MARS
- Anfon adroddiadau cynnydd chwarterol at DBs gyda manylion meddygon teulu sy'n dod o dan y diffiniad o 'eithriadau' e.e. heb gwblhau arfarniad o fewn y chwarter a ddyrannwyd iddynt
- Anfon gwybodaeth ddienw reolaidd sy'n ymwneud ag anghenion dysgu a nodwyd yn lleol a chyfyngiadau sydd ar gael gan MARS
- Trefnu cyfarfodydd chwarterol y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol gyda phob Corff Dynodedig i drafod eithriadau ac achosion llywodraethu.
- Newid y chwarter a ddyrannwyd i'r meddyg teulu ar MARS meddygon teulu a rhoi gwybod i'r DB am unrhyw newidiadau i ddyddiad yr AQ a disgrifiad byr o'r amgylchiadau esgusodol e.e. salwch tymor hir, mamolaeth, cyfnodau sabothol ac ati. Bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu gysylltu â'r DB i drafod eu hamgylchiadau esgusodol ymhellach.

Mae ACs Meddygon Teulu yn gyfrifol am y canlynol:

- Rheoli arfarniadau mewn ardaloedd daearyddol dynodedig ledled Cymru, gan gynnwys bod yn rheolwr llinell ar yr holl Arfarnwyr Meddygon Teulu rhanbarthol.
- Cyfathrebu'n rheolaidd â'u DB a chysylltu'n uniongyrchol â nhw ynghylch eithriadau ac achosion llywodraethu.
- Mynd i gyfarfodydd chwarterol fel uchod a chyfrannu atynt.
- Sicrhau bod y Gweithdrefnau Gweithredol yn cael eu

cymhwyso'n gyson yn eu rhanbarth.

Mae DBs yn gyfrifol am y canlynol:

- Cymhwyso'r Gweithdrefnau Gweithredol yn gyson
- Darparu gwybodaeth allweddol i'r Uned Cymorth Ailddilysu ac AC lleol ar feddygon teulu, a allai fod yn berthnasol i arfarniad neu ailddilysu sydd ar y gweill
- Cysylltu ag ACs i drafod eithriadau lleol

- Mynd i gyfarfodydd chwarterol a chyfrannu atynt.
- Sicrhau bod yr holl feddygon teulu ar eu rhestr wedi'u cofrestru ar MARS
- Sicrhau bod yr holl feddygon teulu ar eu rhestr, sy'n gweithio ac yn ymgymryd ag arfarniad y tu allan i Gymru, yn darparu tystiolaeth o arfarniad blynyddol yn unol â rheoliadau MPL

Rhan 3 – Chwarteri a Ddyrannwyd

3.1 Rheoli Chwarteri a Ddyrannwyd

Mae pob meddyg teulu sydd wedi cofrestru ar MARS yn cael chwarter penodol i ymgymryd â'u harfarniad blynyddol. Dyma'r Chwarteri a Ddyrannir:

- 1 Ionawr – 31 Mawrth
- 1 Ebrill – 30 Mehefin
- 1 Gorffennaf – 30 Medi
- 1 Hydref – 31 Rhagfyr

Cyflwynwyd y system AQ i resymoli'r gwaith o ddarparu arfarniadau'n lleol ac i wneud y gorau o gapasiti cyfyngedig pob Arfarnwr. Dylai'r AQ a ddarperir i bob meddyg teulu fod oddeutu 12 mis ar ôl eu harfarniad diwethaf neu 12 mis ar ôl derbyn eu Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT). Fodd bynnag, os yw'r AQ a ddarparwyd yn anghywir, gellir ei newid drwy ofyn am newid yr AQ drwy'r Swyddog Arfarnu. Bydd y Swyddog Arfarnu wedyn yn rhoi gwybod i'r DB am unrhyw newidiadau i ddyddiad yr AQ ac yn rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau esgusodol.

Fel arfer, caniateir uchafswm o un arfarniad fesul blwyddyn ariannol ar gyfer pob meddyg teulu. Os bydd DB yn gofyn i feddyg teulu ymgymryd â dau arfarniad o fewn un flwyddyn ariannol, dylai'r DB gysylltu â'r RSU i drafod goblygiadau ariannol a chapasiti.

Er mwyn helpu DBs i sicrhau bod eu meddygon teulu'n cael eu harfarnu'n flynyddol, mae'r Uned Cymorth Ailddilysu yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol (fel y nodir uchod o dan 2.1):

- Anfon cyfres o negeseuon atgoffa awtomatig gan MARS at feddygon teulu e.e. os nad oes ganddynt arfarniad wedi'i drefnu yn eu AQ
- Llunio adroddiad ar ddiwedd pob chwarter i ganfod faint o feddygon teulu sydd wedi cwblhau eu harfarniad yn yr AQ a ddyrannwyd iddynt, a faint sy'n hwyr. Mae'r adroddiad yn nodi:
 - y meddygon teulu hynny oedd i fod i gael eu harfarnu yn yr AQ blaenorol
 - y rheini sy'n fwy na 3 mis yn hwyr
 - gwybodaeth am unrhyw amgylchiadau esgusodol
 - rhestr 'ragweithiol' o feddygon teulu i ragweld a nodi'r rheini nad ydynt efallai'n ymgymryd ag arfarniad yn eu AQ

Anfonir y wybodaeth hon ymlaen at y DB perthnasol a'r AC sy'n rheoli'r rhanbarth hwnnw.


Ar ddechrau pob chwarter, bydd MARS yn anfon llythyr safonol awtomatig (AQ3) at bob meddyg teulu sydd wedi syrthio allan o'r chwarter blaenorol h.y. heb ddyddiad arfarnu ac heb roi gwybod i'r Uned Cymorth Ailddilysu am unrhyw amgylchiadau esgusodol. Cynghorir y meddyg teulu i gymryd camau i ddewis Arfarnwr a chwblhau arfarniad cyn gynted â phosibl.

Os nad yw meddyg teulu yn cydymffurfio â gofynion y llythyr AQ3 ac nad yw'n rhoi gwybod i'r DB neu'r RSU am unrhyw amgylchiadau esgusodol erbyn y chwarter canlynol, bydd y Broses Ddyrannu yn cael ei sbarduno (gweler y diagram isod). Bydd y DB yn anfon llythyr DB1 at y meddyg teulu oherwydd eu bod o leiaf 3 mis yn hwyr yn cynnal eu harfarniad. Mae meddygon teulu sydd angen llythyr DB1 (neu gamau pellach fel y bernir yn briodol gan y DB) yn cael eu nodi gan yr RSU yn yr adroddiadau chwarterol a anfonir at DBs. Ar y cam hwn, bydd MARS yn atal y meddyg teulu rhag gallu dewis Arfarnwr a bydd llythyr AU4 hefyd yn cael ei anfon i roi gwybod i'r meddyg teulu ei fod yn rhan o'r Broses Ddyrannu, gan gynghori'r meddyg teulu i gysylltu â'r Swyddog Arfarnu i drefnu ei arfarniad.


Os nad yw meddyg teulu yn cysylltu â'r DB neu'r RSU o fewn yr amserlen benodedig (fel arfer o

fewn 14 diwrnod) fel yr amlinellir yn y llythyrau DB1 ac AU4, byddant yn cael llythyr DB2 gan y DB. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu y bydd camau pellach yn cael eu cymryd (fel sy'n cael ei ystyried yn briodol gan y DB). Cyfrifoldeb y DB yw monitro'r ffrâm amser ar ôl i'r llythyr DB1 gael ei anfon.

3.2 Y Broses Ddyrannu



Os bydd y meddyg teulu'n cyrraedd y cam hwn ac yn cysylltu â'r Uned Cymorth Ailddilysu, bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn cymryd camau penodol i gael Arfarnwr addas sydd ar gael i gynnal arfarniad y meddyg teulu.



Lle nad oes argaeledd yn y rhanbarth, mae AO yn anfon negeseuon e-bost at e-grwpiau arfarnwyr rhanbarthol cyfagos ac yn dilyn y broses fel yr uchod. Os nad oes argaeledd mewn rhanbarthau cyfagos, bydd yr AO yn uwchgyfeirio at Reolwr Rhaglen yr Uned Cymorth Ailddilysu – Cymorth Arfarnu i drafod y camau nesaf. Efallai y bydd angen trafod hyn ymhellach gyda'r DB ynghylch amserlenni.

Gellir defnyddio'r Broses Ddyrannu hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle bo angen:

- DB yn gofyn am hyn gan fod gan y meddyg teulu hanes o ddiffyg ymgysylltu
- Amserlen ail-ddilysu fer
- Nid yw'r meddyg teulu yn gallu dod o hyd i Arfarnwr mewn ardaloedd heb gapasiti digonol

Gall yr AO hefyd ystyried camau eraill e.e. cysylltu â Chynghorydd Cyswllt Cyflogaeth (ELA) y GMC cyn cyfnod ailddilysu meddygon teulu 'dan rybudd' os nad ydynt yn ymgysylltu â phrosesau ailddilysu lleol, gan gynnwys arfarnu. Gall yr AO wneud cais i'r GMC anfon llythyr pryder am ddiffyg ymgysylltu

at feddyg teulu gan ddefnyddio [ffurflen REV6](#). Mae'r Rev6 wedi'i dylunio i'w defnyddio ar ôl rhoi cynnig ar yr holl brosesau mewnol ac mae'r DB yn fodlon mai'r cam gweithredu hwn yw'r cam ymarferol nesaf. Byddai'r Uned Cymorth Ailddilysu yn argymhell rhoi gwybod i'r meddyg teulu am eich bwriad, gan ddweud y gall hyn olygu tynnu trwydded y meddyg teulu oddi arnynt. Lle bo'n bosibl, dylid rhoi gwybod i'r Uned Cymorth Ailddilysu am unrhyw ddatblygiadau.

3.3 Gohebiaeth AQ i Feddygon

Hysbysiad Cod	Disgrifiad	Cyfrifoldeb	Anfonwyd gan MARS
AQ1A	Hysbysiad awtomatig gan MARS i feddygon teulu nad ydynt eto wedi trefnu dyddiad arfarnu ddau chwarter cyn eu AQ	RSU	Y
AQ1B	Hysbysiad awtomatig gan MARS i feddygon teulu nad ydynt eto wedi trefnu dyddiad arfarnu y chwarter cyn eu AQ	RSU	Y
AQ2	Hysbysiad awtomatig gan MARS i feddygon teulu nad ydynt eto wedi trefnu dyddiad arfarnu cyn eu AQ (anfonwyd ar ddiwrnod 1 AQ y meddyg teulu)	RSU	Y
AQ3	Hysbysiad awtomatig gan MARS i feddygon teulu nad ydynt eto wedi cwblhau arfarniad yn ystod eu AQ (anfonwyd ar ddiwrnod 1 y chwarter ar ôl AQ y meddyg teulu)	RSU	Y
AU4	E-bost gan yr Uned Cymorth Ailddilysu yn annog meddygon teulu i gysylltu â ni ynghylch trefnu eu harfarniad (anfonwyd ar ôl i RSU dderbyn bod DB1 wedi cael ei anfon)	RSU	N – â llaw
DB1	Llythyr templed yn cael ei ddarparu gan yr Uned Cymorth Ailddilysu i'r DB ei anfon at y meddyg teulu yn eu hannog i drefnu eu harfarniad drwy'r Uned Cymorth Ailddilysu – gellir ychwanegu'r amserlen gan y DB (anfonir ar ddiwrnod 1, neu cyn gynted â phosibl, y chwarter canlynol – 3 mis ar ôl AQ 3)	DB	N – â llaw
DB2	Llythyr templed wedi'i ddarparu gan yr RSU i'r DB ei anfon at feddyg teulu i'w hysbysu i drefnu eu harfarniad erbyn dyddiad penodol drwy'r Uned Cymorth Ailddilysu	DB	N – â llaw

D.S. Mae DB1 a DB2 yn dempledi y cytunwyd arnynt i DB eu defnyddio a'u diwygio, yn ôl yr angen.

Rhan 4 – Amgylchiadau Esgusodol

Efallai y bydd rhai meddygon teulu yn profi amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eu gallu i ymgymryd ag arfarniad yn ystod eu AQ. Gall amgylchiadau esgusodol gynnwys absenoldeb rhiant, absenoldeb oherwydd salwch neu gyfnod sabothol. Gall meddygon teulu ofyn am newid AQ drwy eu cyfrif MARS o dan 'Fy Arfarniadau' – 'Newid AQ'.

Bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn ystyried cais y meddyg teulu ac yn cysylltu â'r DB os oes angen. Efallai y bydd rhai ceisiadau'n cael eu trafod ymhellach yn y cyfarfod DB chwarterol. Lle bo'n berthnasol, bydd y ddau barti hefyd yn ystyried dyddiad ailddilysu meddyg teulu ac a fydd hynny yn cael unrhyw effaith ar hyn. Os bydd unrhyw newidiadau i AQ y meddyg teulu, bydd y Swyddog Arfarnu yn rhoi gwybod i'r DB am y newid i'r AQ. Bydd y Swyddog Arfarnu yn cynghori'r meddyg teulu i gysylltu â'r DB i drafod eu hamgylchiadau esgusodol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r uned a'r DB am eu statws yn unol â'r [GMC](#). Cyfrifoldeb y meddyg teulu yw [rhoi gwybod i'r DB am eu hamgylchiadau](#) yn unol â [chanllawiau'r GMC](#).

Ar ôl i'r Chwarter a Ddyrannwyd y meddyg teulu fynd heibio a bod angen i'r DB neu'r Swyddog Arfarnu gysylltu â'r meddyg teulu am ddiweddariad, bydd y DB a'r Swyddog Arfarnu yn trafod hyn ac yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol.

4.1 Aildrefnu Arfarniadau

Bydd adegau pan fydd angen i feddygon teulu neu Arfarnwyr aildrefnu arfarniad am gyfnod byr oherwydd amgylchiadau esgusodol. Dylai'r Arfarnwr a'r meddyg teulu geisio aildrefnu'r arfarniad ar ddyddiad/amser sy'n gyfleus i bawb. Os aildrefnir yr arfarniad o fewn 3 mis i ddyddiad gwreiddiol yr arfarniad, bydd yr AQ gwreiddiol fel arfer yn aros yr un fath.

Os bydd y DB yn penderfynu bod yn rhaid i'r meddyg teulu gael arfarniad yn gynharach na'r hyn a drefnwyd oherwydd ailddilysu, rhaid i'r DB gysylltu â'r AC a'r Swyddog Arfarnu i drafod hyn ymhellach. Os yw'r cyfarfod arfarnu yn llai na *9 mis ar ôl dyddiad cyfarfod arfarnu diwethaf y meddyg teulu, bydd y Swyddog Arfarnu a'r AC yn cysylltu â Phennaeth yr Uned Cymorth Ailddilysu am ganiatâd.

Os yw'r meddyg teulu wedi bodloni holl ofynion ailddilysu, mae'r GMC yn datgan nad oes angen i'r meddyg teulu gwblhau 5 arfarniad i gael eu [hailddilysu](#), a dylid ystyried hyn hefyd wrth wneud y penderfyniad.

*Sylwer – Mae'r bwlch rhwng dyddiadau arfarnu yn dechrau o ddyddiad y cyfarfod arfarnu ac nid y dyddiad y cytunwyd ar y crynodeb.

4.2 Aildrefnu Arfarniadau – Cyfrifoldebau Meddygon Teulu

Os bydd angen i'r meddyg teulu aildrefnu arfarniad am gyfnod byr oherwydd amgylchiadau esgusodol, rhaid iddo gysylltu â'i Arfarnwr cyn gynted â phosibl. Os nad oes modd cysylltu â'r Arfarnwr, dylai'r meddyg teulu gysylltu â'r Uned Cymorth Ailddilysu.

Dylid aildrefnu'r arfarniad o fewn 1 mis i ddyddiad gwreiddiol yr arfarniad, lle bo hynny'n bosibl. Os nad yw'r Arfarnwr yn gallu cytuno ar ddyddiad/amser sy'n gyfleus i bawb o fewn 1 mis oherwydd ymrwymadau llwyth gwaith ac ati, bydd yr AC yn cysylltu â'i e-grŵp lleol i weld a oes unrhyw un ar gael. Os nad oes argaeledd yn eu grŵp, bydd yr AC yn cysylltu â'r Uned Cymorth Ailddilysu i drafod y camau nesaf.

Gall ail-amserlennu rheolaidd gan y meddyg teulu arwain at ddiffyg ymgysylltu – gweler A1. Bydd achosion yn cael eu hadolygu ar sail unigol, ond os bydd hyn yn digwydd ar fwy nag un achlysur, heb reswm dilys, efallai y bydd yn cael ei gyfeirio at y DB fel achos o ddiffyg ymgysylltu a bydd y meddyg teulu'n cael ei dynnu oddi ar amserlen arfarnu'r Arfarnwr.

Os bydd arfarniad yn cael ei ganslo gan y meddyg teulu o fewn pythefnos i ddyddiad yr arfarniad a bod yr Arfarnwr wedi cymryd camau rhesymol (e.e. gwirio ffeil y meddyg 4 wythnos cyn dyddiad y cyfarfod, cysylltu â'r meddyg teulu os nad oes digon o ddeunydd, cysylltu â'u AC am gyngor ac ati) gall yr AC benderfynu y bydd yr arfarniad yn cyfrif tuag at gwota'r Arfarnwr a bydd y meddyg teulu'n cael ei dynnu oddi ar restr yr Arfarnwr.

4.3 Aildrefnu Arfarniadau – Cyfrifoldebau'r Arfarnwr

Os nad yw'r Arfarnwr yn gallu cynnal arfarniad oherwydd amgylchiadau esgusodol, rhaid iddynt roi gwybod i'w AC cyn gynted â phosibl. Os byddai'n well gan y meddyg teulu fwrw ymlaen â'r arfarniad ar y dyddiad gwreiddiol, bydd yr AC yn ceisio dod o hyd i Arfarnwr arall sydd â'r capasiti/argaeledd angenrheidiol i ymgymryd â'r arfarniad.

Os nad yw hyn yn bosibl, gellir aildrefnu'r arfarniad ar adeg sy'n gyfleus i'r Arfarnwr gwreiddiol a'r meddyg teulu. Os nad yw hyn yn gyfleus i'r ddau barti o hyd, gall yr AC gysylltu'n uniongyrchol â'r meddyg teulu ynghylch y sefyllfa a chysylltu â'r Arfarnwyr yn eu rhanbarth i benderfynu ar argaeledd. Os nad oes argaeledd o hyd, bydd yr AC yn cysylltu â'r Swyddog Arfarnu i drafod ateb posibl.

Diffyg ymgysylltu ag arfarnu ac ailddilysu

Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol hyn wedi disgrifio pwysigrwydd cydymffurfriad meddygon teulu â'u AQ a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'n cynnwys agweddau manwl ar ddiffyg cydymffurfio y gellid eu hystyried yn ddiffyg ymgysylltu â'r broses arfarnu ac mae'n amlinellu'r prosesau i'w dilyn yn yr achosion hynny.

Os penderfynir nad yw meddyg teulu'n ymgysylltu ag ailddilysu, mae'n ofynnol i'r RO roi gwybod i'r GMC, hyd yn oed os nad yw'r meddyg teulu yn ei gyfnod rhybudd. Yn ogystal, rhaid bodloni nifer o feini prawf cyn y gellir gwneud [argymhelliad diffyg ymgysylltu](#).

Mae argymhelliad diffyg ymgysylltu yn dangos i'r GMC nad yw meddyg teulu wedi ymgysylltu â'r systemau a'r prosesau sy'n cefnogi'r broses ailddilysu e.e. arfarnu, neu nad yw lefel yr ymgysylltu'n ddigon i gefnogi argymhelliad i ailddilysu.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am senarios diffyg ymgysylltu yng nghyd-destun arfarnu.

5.1 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi ar ôl cynnwys ar MPL

O fewn 3 mis i gael eu cynnwys ar y MPL fel meddyg teulu cymwys e.e. 3 mis ar ôl derbyn eu CCT neu gael eu cynnwys ar y rhestr ar ôl symud i Gymru, rhaid i feddyg teulu gofrestru ar [MARS meddygon teulu](#) cyn gynted â phosibl. Ar ôl cofrestru, disgwylir i'r meddyg teulu lenwi'r tudalennau 'Fy Manylion Personol' a 'Fy Manylion Proffesiynol' ac ymgymryd ag arfarniadau h.y. gofyn am Arfarnwr a chytuno ar ddyddiad cyfarfod yn eu chwarter a ddyrannwyd. Os bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn nodi'r posibilrwydd o ddiffyg ymgysylltu, bydd y DB yn cael ei hysbysu am hynny yn y cyfarfod chwarterol.

5.2 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi cyn y cyfarfod gwerthuso – nid yw'r meddyg teulu'n cytuno ar ddyddiad gwerthuso o fewn 1 mis i gais yr Arfarnwr

Os bydd meddyg teulu'n methu â chytuno ar ddyddiad cyfarfod o fewn 1 mis i'r awgrym gwreiddiol gan yr Arfarnwr, bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'w AC drwy'r llythyr A1. Bydd yr AC yn anfon e-bost at y meddyg teulu yn dweud bod yn rhaid iddynt gytuno ar ddyddiad gyda'u Harfarnwr o fewn y 4 wythnos nesaf, gan ddefnyddio'r llythyr templed perthnasol (AC1). Os bydd y meddyg teulu'n methu â gwneud hynny, bydd yn cael ei dynnu o amserlen arfarnu'r Arfarnwr a bydd yn rhaid iddo ailddedchrau trefnu eu harfarniad a chysylltu ag Arfarnwr arall. Gall methiant parhaus gan feddyg teulu i gytuno ar ddyddiad o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt arwain at ddiffyg ymgysylltu. Bydd achosion yn cael eu hadolygu ar sail unigol ond fel arfer bydd mwy nag un methiant gan y meddyg teulu i gytuno ar ddyddiad yn gyfystyr â diffyg ymgysylltu a bydd yn cael ei gyfeirio at y DB gan yr AC gan ddefnyddio llythyr AC3.

5.3 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi cyn y cyfarfod gwerthuso - Ni ddarperir digon o wybodaeth arfarnu bythefnos cyn y drafodaeth werthuso

Disgwylir i bob meddyg teulu ddarparu'r wybodaeth ategol angenrheidiol i alluogi trafodaeth arfarnu ystyrlon gyda'i Arfarnwr. Wrth wneud hynny, mae'r meddyg teulu'n dangos parodrwydd i gymryd rhan mewn arfarniad, gan gydnabod ei fod yn broses ffurfiannol a datblygiadol. Mae cymorth i baratoi ar gyfer arfarniad ar gael i feddygon teulu ar [wefan Ailddilysu Cymru](#).

Cyfrifoldeb y meddyg teulu yw darparu'r wybodaeth hon o leiaf bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod arfarnu. Bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod arfarnu, mae MARS yn atal y meddyg teulu rhag llwytho unrhyw wybodaeth newydd i fyny i'r ffolder arfarnu. Gelwir hyn yn 'gyfnod cloi'. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr Arfarnwr ddigon o amser i adolygu gwybodaeth y meddyg teulu a pharatoi ar gyfer y cyfarfod yn ddigonol.

Dim ond gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn arfarniadau fydd yn cael ei hystyried at ddibenion ailddilysu yn unol â'r GMC. Ni fydd yr Arfarnwr yn cynnig ail gyfarfod os nad yw'r meddyg teulu'n cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer ailddilysu, a dylai gysylltu â'i DB i drafod hyn ymhellach.

Os na ddarperir digon o wybodaeth i ganiatáu trafodaeth ystyrlon, bydd yr Arfarnwr yn gohirio'r arfarniad ac yn ei ailddedfynu. O ystyried capasiti cyfyngedig yr Arfarnwr, mae'n debygol y bydd yn rhaid darparu ar ei gyfer o amgylch ei lwyth gwaith arfaethedig. Os na ellir cytuno ar ddyddiad o fewn 1 mis, bydd yr Arfarnwr yn cysylltu â'i AC i drafod y camau nesaf.

Bydd yr Arfarnwr yn rhoi adborth i'r meddyg teulu drwy e-bost ynghylch pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i sicrhau bod modd cynnal trafodaeth ystyrlon – drwy'r llythyr templed A2. Bydd yr adborth hefyd yn cyfeirio'r meddyg teulu at ffynonellau cyngor ac arweiniad priodol mewn perthynas â hyn. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Arfarnwr yn cadw cofnod o ddyddiad y sgwrs ac unrhyw faterion a godwyd neu y cytunwyd arnynt, ac yn ei e-bostio i'w AC. Os bydd meddyg teulu'n anghytuno â barn yr Arfarnwr, bydd yn cael ei uwchgyfeirio i'r AC i'w ystyried ymhellach.

Gall methiant parhaus gan feddyg teulu i ddarparu digon o wybodaeth arfarnu i'r Arfarnwr o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt arwain at ddiffyg ymgysylltu. Bydd achosion yn cael eu hadolygu ar sail unigol ond fel arfer bydd mwy nag un methiant gan y meddyg teulu i ddarparu digon o ddeunydd arfarnu yn gyfystyr â diffyg ymgysylltu a bydd yn cael ei gyfeirio at y DB gan yr AC gan ddefnyddio llythyr AC3.

5.4 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi yn ystod y cyfarfod arfarnu

Yn ystod y cyfarfod, disgwylir i'r meddyg teulu ddangos parodrwydd i drafod cofnodion gyda'u Harfarnwr, ymateb yn briodol i gwestiynau ac adborth, a chyfrannu at lunio eu Cynllun Datblygu Personol (CDP) ei hun.

Os nad yw'r meddyg teulu'n fodlon cymryd rhan yn y drafodaeth arfarnu, bydd yr Arfarnwr yn codi hyn gyda'r meddyg teulu ac yn ceisio archwilio'r rhesymau dros hyn. Os yw'r meddyg teulu'n parhau i fod yn amharod i gymryd rhan yn y drafodaeth, mae'n bosibl y bydd hyn yn cael ei nodi fel diffyg ymgysylltu. Os yw'r Arfarnwr yn teimlo ei fod wedi dilyn pob llwybr a bod y meddyg teulu wedi parhau i beidio ag ymgysylltu yn ystod y cyfarfod, efallai y bydd yn dewis dod â'r cyfarfod i ben yn gynnar.

Bydd yr Arfarnwr yn trafod ei bryderon gyda'i AC cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod arfarnu drwy lythyr templed A3. Yna, bydd yr AC yn cysylltu â'r meddyg teulu i drafod hyn ymhellach drwy lythyr templed AC2. Os nad yw eu AC ar gael, dylai'r Arfarnwr gysylltu â'r Uned Cymorth Ailddilysu. Gellir uwchgyfeirio'r mater i Bennaeth yr Uned Cymorth Ailddilysu i ystyried y camau nesaf priodol. Gall hyn gynnwys aildrefnu'r cyfarfod arfarnu neu gyfeirio at y DB ynghylch y posibilrwydd o ddiffyg ymgysylltu. Bydd yr Uned Cymorth Ailddilysu yn sicrhau bod y meddyg teulu bob amser yn cael eu hysbysu.

Os nad yw meddyg yn mynychu'r gwerthusiad, bydd y NA1 yn cael ei ddefnyddio.

5.5 Diffyg ymgysylltu wedi'i nodi ar ôl y cyfarfod arfarnu

Ar ôl i'r cyfarfod arfarnu gael ei gynnal, bydd yr Arfarnwr yn cyflwyno'r crynodeb arfarnu, drwy MARS. Fel arfer, bydd y crynodeb ar gael i'r meddyg teulu o fewn pythefnos i'r cyfarfod arfarnu. Nid oes disgwyl i'r arfarnwr gyflwyno crynodeb o'r arfarniad cyn y llinell amser o bythefnos. Os bydd y DB neu'r meddyg teulu angen y crynodeb cyn y llinell amser o bythefnos, rhaid iddynt gysylltu â'r AC a'r Swyddog Arfarnu i drafod hyn ymhellach.

Disgwylir i'r meddyg teulu adolygu'r ddogfen a chytuno arni neu ei gwrthod o fewn pythefnos ar ôl iddi gael ei chyflwyno gan yr Arfarnwr. Bydd y meddyg teulu yn cael nodyn atgoffa awtomatig (llythyr templed AU3) gan MARS 28 diwrnod ar ôl i'r crynodeb gael ei gyflwyno (os nad yw'r meddyg teulu wedi cytuno arno). Mae'r amserlen hon wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod pob arfarniad yn cynhyrchu CDP ystyrlon a pherthnasol ar gyfer y meddyg teulu a bod crynodeb o'r arfarniad ar gael i'r RO i hysbysu argymhelliad ailddilysu amserol (os yw'n berthnasol).

Gall methiant gan y meddyg teulu i dderbyn neu wrthod y crynodeb o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt arwain at ddiffyg ymgysylltu a bydd angen i'r DB ystyried rhoi gwybod i'r meddyg teulu y bydd angen trefnu arfarniad newydd. Bydd achosion a allai fod yn gyfystyr â diffyg ymgysylltu yn cael eu hadolygu ar sail unigol – bydd pob DB yn cael gwybod am achosion o'r fath drwy'r adroddiad AQ chwarterol. Efallai y bydd y DB yn ystyried anfon y llythyr templed DB3 at y meddyg teulu gyda dyddiad cau penodol.

Os yw'r meddyg teulu'n dymuno diwygio crynodeb yr arfarniad, mae'n rhaid iddo ei wrthod drwy MARS a chynnwys manylion yr hyn yr hoffai ei newid. Bydd yr Arfarnwr yn ystyried hyn ac yn diwygio'r geiriad os yw'n cytuno â'r diwygiadau a awgrymir. Bydd yr arfarnwr yn ail-gyflwyno'r crynodeb o fewn pythefnos. Os bydd y meddyg teulu'n gwrthod y geiriad diwygiedig eto ac nad yw'r ddau barti'n gallu dod i gytundeb, dylid ei gyfeirio at yr AC a fydd yn rhoi gwybod i'r DB a'r RSU. Bydd hyn yn sbarduno'r polisi proses anghydfod – I gael cyngor ar y broses anghydfodau, cysylltwch â'r Swyddog Arfarnu yn y lle cyntaf ar heiw.appraisalofficer@wales.nhs.uk

Os nad yw Arfarnwr yn rhoi crynodeb o fewn pythefnos, rhaid i'r AC gysylltu â'r Arfarnwr i drafod hyn ymhellach.

Os oes gan Arfarnwr amgylchiadau esgusodol sy'n ei atal rhag ysgrifennu ac ymrwymo i grynodedb, bydd angen i'r AC gysylltu â'r meddyg teulu, yr RSU a'r DB i roi gwybod iddynt. Os nad yw'r Arfarnwr wedi ysgrifennu'r crynodeb, bydd angen i'r AC drafod hyn gyda'r DB. Os bydd yr Arfarnwr yn dychwelyd i'r gwaith o fewn amserlen benodol y cytunwyd arni gyda'r DB, gellir creu'r crynodeb yn unol â'r broses arferol. Os nad yw'r Arfarnwr wedi dychwelyd i'r gwaith o fewn yr amserlen a bennwyd, bydd yr AC yn cysylltu â'r Swyddog Arfarnu a'r DB i drafod hyn ymhellach.

Os yw'r Arfarnwr wedi ysgrifennu'r crynodeb ond heb ei gyflwyno, bydd yr AC yn cysylltu â'r meddyg teulu i'w hysbysu y bydd yn cyflwyno'r crynodeb ar ran yr Arfarnwr. Bydd yr AC hefyd yn gwneud datganiad yn y blwch cyd-destun proffesiynol "Crynodeb wedi'i gyflwyno ar ran yr Arfarnwr gan _____ - Cydlynedd Arfarnu Meddygon Teulu ar gyfer _____" cyn ymrwymo iddo. Bydd angen trafod unrhyw anghydfod gyda'r crynodeb gyda'r Swyddfa Arfarnu a'r DB cyn penderfynu ar y camau nesaf.

Rhan 6 – Pryderon ac Eithriadau Arfarnu

Mae'r holl ymchwiliadau a gychwynnir oherwydd pryderon a godir ynghylch perfformiad, ymddygiad neu iechyd meddyg teulu (a allai fod yn peryglu diogelwch cleifion) yn gyfrifoldeb i'r DB perthnasol ac maent ar wahân i'r broses arfarnu. Mae ELA'r GMC ar gael i gynghori'r RO ar faterion Addasrwydd i Ymarfer posibl a sut y gallent ymwneud ag arfarniad a/neu ailddilysu meddygon teulu neu effeithio arnynt. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol hyn yn manylu ar rôl yr Uned Cymorth Ailddilysu pan fydd pryderon yn cael eu codi.

6.1 Pryderon a nodwyd drwy weithdrefnau DB y tu allan i'r broses arfarnu

Os codir pryderon ynghylch meddyg teulu e.e. oherwydd ymchwiliad DB, bydd y RO yn ystyried a all y meddyg teulu fwrw ymlaen â'r arfarniad.

Ar ôl i'r prosesau ymchwilio ddechrau, dylai'r DB roi gwybod i'r Uned Cymorth Ailddilysu am yr ymchwiliad gan ddefnyddio'r llythyr templed perthnasol (MD1) a rhoi cyngor ynghylch eu harfarniad nesaf.

Efallai y bydd y meddyg teulu'n cael eu cynghori i gofnodi eu gwybodaeth arfarnu er mwyn i unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad gael eu hystyried yn y gwerthusiad nesaf a'r CDP y cytunwyd arno yn yr arfarniad dilynol. Er nad yw'r Arfarnwr yn gallu rhoi sylwadau ar fanylion yr ymchwiliad yn ystod yr arfarniad, efallai y bydd yn gallu helpu'r meddyg teulu i nodi'r ffordd orau o reoli unrhyw faterion sy'n codi ohono.

Os cyfarwyddir yr RSU i archifo cyfrif MARS y meddyg teulu, bydd y DB yn rhoi gwybod i'r RSU pryd y dylid adfer y cyfrif drwy lythyr templed MD2. Bydd y RSU yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu am y broses gan ddefnyddio llythyr templed AU2.

6.2 Pryderon a nodwyd drwy'r broses arfarnu

Pan fydd Arfarnwr yn nodi pryder ynghylch ymddygiad neu iechyd meddyg teulu drwy'r broses arfarnu, rhaid iddo ei uwchgyfeirio i'w AC ar unwaith, a fydd yn cysylltu â Phennaeth yr Uned Cymorth Ailddilysu. Nid yw'r Arfarnwr na'r AC yn gyfrifol am asesu neu ymchwilio i bryderon. I ddechrau, efallai y bydd yr AC yn trafod y pryder posibl a godwyd gyda'r Arfarnwr ac efallai y bydd yn rhoi gwybod i'r DB perthnasol am y pryderon posibl hyn gan ddefnyddio llythyr templed AC3. Dylid gwneud hyn yn brydlon.

Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryder, bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu am ei bryderon,

ei rwymedigaeth broffesiynol i roi gwybod amdano (os yw'n berthnasol) ac yn gwahodd y meddyg teulu i ymateb. Bydd y camau gweithredu sy'n deillio o'r drafodaeth hon yn cael eu cofnodi yn y crynodeb a bydd camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi yn CDP y meddygon teulu. Cydnabyddir efallai na fydd yn briodol nac yn bosibl mynegi'r pryderon hyn yn ystod y drafodaeth arfarnu.

Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryder, gall y DB roi gwybod i'r Uned Cymorth Ailddilysu am unrhyw gamau pellach y mae'n bwriadu eu cymryd, ac mae gohebiaeth ddilydol â'r meddyg teulu yn debygol o ddod oddi wrth y DB – gweler isod.

6.3 Pryderon Arwyddocaol

Mae pryder arwyddocaol yn y cyd-destun hwn yn cael ei ddiffinio fel unrhyw fater penodol a nodwyd gan y meddyg teulu neu'r arfarnwr sydd â goblygiadau i ddiogelwch cleifion. Byddai pryder arwyddocaol fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu yn unol â'u Dyletswyddau Meddyg fel y nodir yn [Arfer Meddygol Da y GMC](#). Cyfrifoldeb y meddyg teulu yw cam gweithredu o'r fath, ac wedyn cyfrifoldeb y sefydliad yr adroddir am hyn iddo.

Rhaid i'r Arfarnwr gofnodi'r drafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod arfarnu a'r camau y maen nhw, neu'r meddyg teulu, yn bwriadu eu cymryd. Rhaid i unrhyw gamau y cytunwyd arnynt sy'n gyfrifoldeb i'r meddyg teulu gael eu nodi'n glir yn y crynodeb a rhaid i'r Arfarnwr ychwanegu pwynt gweithredu [CAMPUS](#) at y CDP.

Pan fynegir pryder arwyddocaol posibl, mae'n bwysig caniatáu i'r meddyg teulu ei drafod yn ystod y cyfarfod arfarnu. Fodd bynnag, rhaid i'r Arfarnwr egluro wrth y meddyg teulu NAD yw codi'r mater yn yr arfarniad yn golygu rhyddhau'r meddyg teulu o'u dyletswyddau. Rôl yr Arfarnwr yn y sefyllfaoedd hyn yw gwahaniaethu rhwng cyfyngiad/pryder ysgafn a phryder arwyddocaol (efallai y bydd angen cyngor pellach gan yr AC ar hyn). Rhaid i'r Arfarnwr gadarnhau gyda'r meddyg teulu a oes camau priodol wedi'u cymryd eisoes neu, os nad ydynt, archwilio gyda'r meddyg teulu beth fyddai'r camau priodol. Rhaid i'r Arfarnwr wedyn gofnodi hyn yn briodol fel y nodir uchod.

Rydym wedi rhestru rhai senarios ymarferol isod a allai fod yn ddefnyddiol i Arfarnwyr:

- Mae pryder arwyddocaol a nodwyd eisoes wedi cael sylw priodol gan y meddyg teulu (e.e. eisoes wedi'i adrodd yn benodol i'r DB) – rhaid i'r Arfarnwr gofnodi hyn yn y crynodeb arfarnu yn erbyn cofnod perthnasol o dystiolaeth arfarnu
- Pryder arwyddocaol wedi'i nodi a'i drafod yn yr arfarniad, mae'r meddyg teulu eisoes wedi cynllunio camau priodol, neu cytunir ar hynny yn ystod y drafodaeth – rhaid i'r Arfarnwr gofnodi hyn yn y crynodeb a'i gofnodi fel cam gweithredu CAMPUS yn CDP y meddyg teulu
- Mynegwyd pryder arwyddocaol ond nid yw'r meddyg teulu na'r Arfarnwr yn cytuno ar y camau gweithredu – dylai'r Arfarnwr gyfeirio at ei AC am gyngor yn syth ar ôl y cyfarfod. Ni ddylai'r Arfarnwr ymrwymo i'r crynodeb nes bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach gyda'r AC.
- Pryder arwyddocaol wedi'i nodi gan yr Arfarnwr yn y crynodeb o'r arfarniad blaenorol / CDP a'r meddyg teulu yn datgan yn ystod y cyfarfod arfarnu bod y cam gweithredu'n anghyflawn – dylai'r Arfarnwr gyfeirio at yr AC am gyngor yn syth ar ôl yr arfarniad.

Mae arfarnwyr yn ymwybodol bod trothwy uwchgyfeirio isel wrth ystyried trafod mater gyda'u AC. Pan fydd materion yn cael eu huwchgyfeirio ymhellach i Bennaeth yr Uned Cymorth Ailddilysu, byddant bob amser yn gweithredu'n ddidwyll, yn enwedig mewn perthynas â'u dyletswyddau eu hunain fel meddyg teulu. Gall hyn gynnwys rhoi gwybod i'r cyrff priodol am unrhyw bryderon arwyddocaol heb eu datrys

yn brydlon drwy lythyr templed ACC3.

6.4 Arfarniad Ymarfer Cyfan

Mae Arfarniad Ymarfer Cyfan (WPA) yn un o ofynion ailddilysu a Llwybrau Rheoli Eithriadau Arfarnu Cymru a'r Canllawiau Arfarnu Ymarfer Cyfan (sydd ar gael drwy [wefan 'Ailddilysu Cymru'](#)) sy'n disgrifio'r egwyddorion sy'n sail i WPA.

Mae'r meddyg teulu yn gyfrifol am ddarparu digon o wybodaeth, wedi'i mapio i ofynion y GMC, er mwyn cael arfarniad ystyrlon. Yr Arfarnwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth yn bodloni neu'n rhagori ar ofynion y GMC ym mhob rôl ar wahân.

Wrth ystyried holl wybodaeth ategol meddyg teulu, gellir grwpio'r wybodaeth honno i:-

1. Unrhyw weithgaredd y byddai disgwyl i feddyg teulu ei gyflawni yn eu rôl fel contractwr meddyg teulu:

Nid oes angen trafodaeth bellach. Dylid gwneud cofnod byr yng nghrynodeb y meddyg teulu sy'n dangos eu bod wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon.

2. Unrhyw weithgaredd y mae meddyg teulu yn ei gwblhau pan fydd yn cael eu cyflogi gan sefydliad arall a dan oruchwyliaeth:

i. Os yw'r meddyg teulu WEDI cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:

Nid oes angen trafodaeth bellach. Dylid gwneud cofnod byr yng nghrynodeb y meddyg teulu sy'n dangos eu bod wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon.

ii. Os NAD yw'r meddyg teulu wedi cael adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl benodol hon:

a. Os yw'r Arfarnwr yn credu bod ganddo'r arbenigedd i drafod ac arfarnu tystiolaeth y meddyg teulu yn y rôl benodol hon:

Trafod a chofnodi yn y ffordd arferol.

Dylai'r Arfarnwr drafod gyda'r meddyg teulu y wybodaeth ategol y byddai disgwyl iddynt ei chyflwyno ar gyfer y rôl hon. Gall y broses gael ei hysbysu gan y cwestiynau canlynol:

- Sut oeddech chi'n gymwys i ymgymryd â'r rôl hon?
- Sut ydych chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rôl hon?
- Sut ydych chi'n dangos ansawdd eich ymarfer?
- Sut ydych chi'n delio â digwyddiadau arwyddocaol?

- Sut ydych chi'n cael adborth?

Gellir gwneud cofnodion yn CDP y Meddyg Teulu mewn perthynas â'r drafodaeth uchod er mwyn hwyluso datblygiad addysgol y meddyg teulu yn y rôl hon. Os, yn y cyfarfod arfarnu dilynol, nodir nad yw'r meddyg teulu wedi cwblhau'r amcanion CDP hyn, dylid anfon llythyr WP1 i'r perwyl hwn.

Cydnabyddir bod adolygiad gan gymheiriaid mewn rôl arall yn ymarfer addysgol werthfawr ynddo'i hun ac felly dylid ei annog yn weithredol. Felly, byddai'n ddefnyddiol trafod y mater hwn gyda'r meddyg teulu yn ystod y cyfarfod arfarnu, hyd yn oed os yw'r Arfarnwr yn credu ei fod mewn sefyllfa i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg teulu yn y rôl benodol hon. Gellid cynnwys cofnod i'r perwyl hwn yn CDP y meddyg teulu gan bwysleisio manteision addysgol yr ymarfer hwn.

b. Os nad yw'r Arfarnwr yn credu bod ganddo'r arbenigedd i drafod a gwerthuso tystiolaeth y meddyg teulu yn y rôl benodol hon neu os yw'r rôl, ym marn yr Arfarnwr, yn rôl sylweddol:

Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi proses WPA ar waith gyda'r llythyr WP1 yn cael ei gyhoeddi, gan annog y meddyg teulu, os oes angen, i gysylltu â'u RO am gyngor. Gellir defnyddio'r llythyr WP2, os oes angen, yn ddiweddarach i ofyn yn benodol i'r RO am gyngor ynghylch yr hyn y dylai'r meddyg teulu ei gyflwyno fel tystiolaeth at ddibenion Arfarniad Ymarfer Cyfan.

Mae'n bwysig nodi mai bwriad proses WPA yw cefnogi'r meddyg teulu yn ei ymgais i gael y dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer Arfarniad Ymarfer Cyfan gan y cyrff perthnasol.

Mae'r meddyg teulu angen adolygiad gan gymheiriaid yn y rôl hon (llythyr WP1).

Nid oes angen i'r meddyg teulu gael ei arfarnu'n ffurfiol er mwyn cael tystiolaeth o'r fath. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y sefydliad sy'n cyflogi o'r farn bod y meddyg teulu angen arfarniad ffurfiol/adolygiad perfformiad mewn rôl o'r fath, a gellir bwydo hyn i mewn i'r prif arfarniad yn y ffordd arferol.

3. Arall [Mae'r categori hwn yn cynnwys y meddygon teulu hynny sy'n gweithredu'n annibynnol ar unrhyw

sefydliad cyflogi nad yw ei weithgareddau yn y rolau hyn yr hyn a ddisgwylir gan feddyg teulu].

Er enghraifft, gweithio fel meddyg teulu ar yr ystlys mewn digwyddiadau chwaraeon, ymyriadau cosmetig, presgripsiynu ar-lein:

Dylid rheoli'r meddygon teulu hyn fesul achos. Dylai'r Arfarnwyr drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'u Cydlynnydd Arfarnu neu eu Harweinydd Arfarnu.

Ni ddylai Arfarnwr sy'n gweithredu o fewn ffiniau Arfer Meddygol Da ac sy'n cynrychioli trafodaeth yr arfarniad

yn onest ac yn eirwir, fod yn atebol am wybodaeth sy'n anghywir neu'n anwir.

Ni all Arfarnwr, sy'n derbyn allbwn arfarniad arall neu weithdrefn rheoli perfformiad, pan fo cyd-weithiwr proffesiynol (meddyg teulu fel arfer) wedi arfarnu perfformiad rhywun arall, fod yn atebol am wallau yn y dogfennau hynny. RHAID i'r sefydliad sy'n darparu'r arfarniad/adolygiad perfformiad hwnnw ddelio ag unrhyw bryderon y gellir eu mynegir yn y dogfennau hynny ynghylch perfformiad.

Mae Arfarnwyr meddygon teulu yn cael eu diogelu rhag atebolrwydd gan yr Uned Cymorth Ailddilysu.


Bob blwyddyn, dylai'r arfarnwr wirio'r CDP blaenorol am gofnodion sy'n cynnwys adolygiadau gan gymheiriaid neu dystiolaeth i fodloni WPA. Os nad oes dystiolaeth nac adolygiad gan gymheiriaid ar gael yn ystod y flwyddyn ddilynol (2il) bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu yn ystod y drafodaeth am y gofyniad a chofnodi yn CDP y meddyg teulu am yr eildro y bydd angen cynnwys hyn yn y flwyddyn ddilynol.

Ar ben hynny, bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'w AC lleol a fydd yn rhoi gwybod i'r RO yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r llythyr templed WP2.

Dyletswydd y RO o hyd yw gwneud argymhellion ailddilysu. Felly, os nad yw'r meddyg teulu yn gallu ymgymryd ag adolygiad gan gymheiriaid mewn rôl broffesiynol arall ar wahân i feddyg teulu, rhaid iddynt gysylltu â'u RO enwebedig. Bydd y RO yn gallu rhoi rhagor o gyngor ar sut gallai'r meddyg teulu fodloni'r gofynion i alluogi argymhelliad ailddilysu yn eu rolau niferus, gan fodloni gofynion y GMC ym mhob rôl sy'n cael ei chyflawni gan y meddyg.

Bydd y RO yn gwneud argymhelliad i'r GMC ynghylch addasrwydd meddyg teulu i ymarfer fel arfer bob pum mlynedd. Felly, bydd angen mynd i'r afael â pheidio â chynnwys adolygiad gan gymheiriaid neu dystiolaeth dro ar ôl tro sy'n ymwneud â rôl / cyfrifoldebau ar wahân i feddyg teulu. Os na fydd adolygiad gan gymheiriaid na thystiolaeth ar gael yn ystod y flwyddyn ddilynol (3edd), bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'r meddyg teulu yn ystod y drafodaeth am y gofyniad ac yn cofnodi yn CDP y meddyg teulu am y trydydd tro y bydd angen cynnwys hyn yn y flwyddyn ddilynol. Ar ben hynny, bydd yr Arfarnwr yn rhoi gwybod i'w AC lleol a fydd yn rhoi gwybod i'r RO yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r llythyr WP3 i alluogi'r RO i sicrhau bod y meddyg teulu'n bodloni'r gofynion ailddilysu yn ei rolau lluosog.

Peidio â chynnwys adolygiad gan gymheiriaid – Arfarniad Ymarfer Cyfan (6.4)



Os oes unrhyw ymholiadau pellach yn ymwneud â'r Gweithdrefnau Gweithredol hyn, dylid, yn y lle cyntaf, eu cyfeirio at heiw.appraisalofficer@wales.nhs.uk